# Quesadilla (Keh-sa-deaha)

Amser paratoi: 10 munud Amser coginio: 3 munud 1 3



## Cynhwysion

1 tortilla (i bob oedolyn)

Dyrnaid o gaws cheddar wedi'i gratio

Llysiau salad, wedi'u torri - tomatos, ciwcymbr, sibols, moron, letys

Llenwad - cyw iâr, twrci, ham, pysgod tun, wyau wedi'u berwi'n galed, ffa pob

## Dull.

- Rhowch y tortilla mewn padell ffrio boeth (dim angen olew). Llenwch un hanner o'r tortilla gyda haenau fel a ganlyn - ysgeintiad o gaws, haen o lysiau salad, llenwad o'ch dewis a haen arall o gaws
- Plygwch yr hanner heb ei lenwi dros y llenwad a choginiwch ar bob ochr am 1 munud neu nes bydd y caws wedi toddi a'r llenwad wedi cynhesu
- Torrwch bob quesadilla yn ei hanner neu yn draeanau a gweinwch ar ei ben ei hun fel byrbryd neu weler yr adran Seigiau a Danteithion Sawrus i gael syniadau ynghylch beth i'w roi gyda nhw

